Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>15 CHWEFROR 2021<br>10.00 o'r gloch** | **MONDAY<br>15 FEBRUARY 2021<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | **VIRTUAL MEETING** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar yn dyddiadau canlynol:-

- 18 Ionawr 2021 (Cyllideb)
- 25 Ionawr 2021

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **RHENTI TAI Y CRT A THALIADAU'R GWASANAETHAU TAI 2021/22** (Tudalennau 33 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Swyddog Cyfathrebu (GJ), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Lleol)) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Richard Dew ddatgan diddordeb sy'n rhagfarnu o ran eitem 6 ar yr agenda ac nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y mater.

Bu i'r Cynghorydd Ieuan Williams ddatgan diddordeb yn eitem 4 ar yr agenda.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim i'w hadrodd.

**3. CYLLIDEB GYFALAF GYCHWYNNOL 2021/22**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sy'n cynnwys y gyllideb gyfalaf gychwynnol ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, yr adroddiad drwy esbonio y bydd y gyllideb gyfalaf arfaethedig gychwynnol, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ynghyd â chynigion y gyllideb refeniw ddrafft o dan yr eitem ddilynol, yn destun

ymgynghoriad ffurfiol â'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r cyhoedd. Yna bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud ei argymhellion terfynol ynghylch cyllideb 2021/22 i'r Cyngor Sir. Bydd cyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth, 2021 wedyn yn cymeradwyo'r gyllideb a lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod wedi bod yn anos llunio'r gyllideb gyfalaf eleni oherwydd diffyg cyllid sy'n golygu y bydd yn rhaid dod o hyd i arian ychwanegol er mwyn cyflawni'r prosiectau cyfalaf a argymhellir yn llawn. Cyfanswm y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 (ac eithrio'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yn seiliedig ar ffigurau dros dro y setliad Llywodraeth Leol yw £4.321m. O'r swm yma, mae angen £4.167m i gefnogi'r rhaglen ar gyfer adnewyddu a newid asedau presennol yn unol â'r Strategaeth Gyfalaf a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Argymhellir cynnwys pedwar prosiect cyfalaf untro yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22 ac mae'r rhain yn dod i gyfanswm o £1.105m sy'n fwy na'r £921k sydd ar gael. Gallai tanwariant posibl yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 olygu y gellid ychwanegu £1m ychwanegol at y gronfa gyffredinol y gellid ei defnyddio i ariannu'r gwariant cyfalaf ychwanegol yn 2021/22. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd o hyn ac os bydd sefyllfa'r gyllideb refeniw yn dirywio yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol, gall lefel y cyllid sydd ar gael fod yn llai nag £1m. O'r 4 cynllun untro a nodir yn Nhabl 4 o'r adroddiad ystyrir bod angen rhoi blaenoriaeth i'r arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Datblygu Economaidd (£95k) a phrynu llyfrau chrome i ddisgyblion (£305k) sy'n golygu, os nad oes digon o arian wrth gefn ar gael, yna efallai y bydd yn rhaid gwario llai ar y ddau gynllun arall – gosod wyneb newydd ar ardaloedd chwarae a chynlluniau lliniaru llifogydd. Cynigir cyfanswm rhaglen gyfalaf o £36.155m ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mai un o egwyddorion allweddol y Strategaeth Gyfalaf yw y bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu bob blwyddyn i sicrhau y buddsoddir yn asedau presennol y Cyngor i'w diogelu ar gyfer y dyfodol; mae'r flaenoriaeth hon wedi'i chyflawni ar y cyfan drwy Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru a benthyca â chymorth. Mae'r ddau bennawd yma wedi aros yn weddol gyson dros nifer o flynyddoedd gyda Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau gwariant cyfalaf penodol drwy gyllid grant. Mae hyn yn golygu bod y cyllid craidd sydd ar gael at ddibenion cyfalaf wedi bod yn lleihau fesul blwyddyn gan ei gwneud yn anos ariannu unrhyw fuddsoddiad mewn asedau sy'n bodoli eisoes. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi defnyddio derbyniadau cyfalaf fel ffynhonnell cyllid cyfalaf ychwanegol; fodd bynnag, mae'r potensial ar gyfer unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol bellach yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o unrhyw asedau sy'n weddill nad ydynt wedi'u gwerthu eisoes wedi'u clustnodi i ariannu prosiectau cyfalaf presennol neu brosiectau cyfalaf yn y dyfodol e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif, gwelliannau hamdden a mân-ddaliadau. Yn yr un modd, mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyllid wedi bod ar gael o gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol i ariannu prosiectau cyfalaf. Mae defnyddio'r arian hwn dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod y balans wedi gostwng yn sylweddol a bydd y balans sy'n weddill yn cael ei gadw i ariannu unrhyw waith cyfalaf brys a allai godi yn ystod y flwyddyn neu i ddarparu arian cyfatebol pe bai'r cynnig o arian grant sylweddol yn dod i law yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am swm bach o arian cyfatebol. Felly, mae'r gyllideb gyfalaf yn cael ei chyfyngu fwyfwy, a hynny sydd wedi arwain at y cynnig i ddefnyddio tanwariant posibl o'r gyllideb refeniw ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir a heb newid strategaeth gan Lywodraeth Cymru o ran cynyddu cyllid cyfalaf craidd, bydd yn dod yn fwyfwy anodd ariannu unrhyw eitemau newydd o wariant cyfalaf yn y dyfodol.

Holodd yr Is-gadeirydd ynghylch cynnydd cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch ac os bydd llithriant oherwydd prinder arian cyfalaf p'un ai a fydd y cynllun a'r amserlen yn cael eu hailystyried.

DRAFT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yn rhaid gwario cyllid grant Llywodraeth Cymru (85%) ar gyfer y cynllun yn y flwyddyn ariannol nesaf; os na fydd y Cyngor yn gallu darparu'r 15% o arian cyfatebol sy'n weddill, yna bydd yn rhaid ail-negodi’r grant gyda Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ei fod o'r farn ei bod yn bwysig i'r cynllun fynd rhagddo o ystyried bod 85% o gyllid ar gael i hwyluso hynny; fodd bynnag, craidd y mater yw a fydd yr arian grant yn dal i fod ar gael ym mlwyddyn ariannol 2022/23 pe na bai'r Cyngor yn gallu rhoi arian cyfatebol i'r cynllun yn 2021/22.

Awgrymodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai’n syniad doeth i'r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at y pwysau ar y gyllideb gyfalaf a gofyn iddynt felly ystyried ariannu cynlluniau lliniaru llifogydd yn llawn yn y dyfodol. Ychwanegodd ei bod yn bwysig na ddylid colli cyllid grant yn enwedig pan fydd ar lefel o 85%.

Cytunodd y Cadeirydd fod pennu'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn her ac yn sgil hyn, cynigiodd y dylai'r Aelod Portffolio Cyllid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau am sefyllfa'r gyllideb gyfalaf yn Ynys Môn gan na fu cynnydd yn y dyraniad cyfalaf ers nifer o flynyddoedd a'i oblygiadau i wariant cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno y dylid cyflwyno'r sylwadau a awgrymwyd.

**Penderfynwyd -**

- **Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2021/22 i'r Cyngor Llawn –**

| | |
|---|---|
| **Cynlluniau 2020/21 a ddygwyd ymlaen** | **£ 3.970m** |
| **Adnewyddu/Newid Asedau** | **£ 4.167m** |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau Blaenoriaeth)** | **£ 780k** |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (yn amodol fod Cyllid ar gael)** | **£ 325k** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **£ 6.6m** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **£20.313m** |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir** | **£36.155m** |

**Cyllidir gan:**

| | |
|---|---|
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **£ 2.163m** |
| **Benthyca â Chymorth Cyffredinol** | **£ 2.158m** |
| **Balansau Cyffredinol** | **£ 596k** |
| **Balansau Cyffredinol (os oes digon o arian ar gael)** | **£ 325k** |
| **Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **£ 2.897m** |
| **Benthyca heb Gymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **£ 498k** |
| **Arian Wrth Gefn CRT a’r Gwarged yn y Flwyddyn** | **£15.639m** |
| **Benthyca heb gymorth gan y CRT** | **£ 2.0m** |

DRAFT

**Grantiau Allanol £ 5.909m**
**Cyllid 2020/21 a ddygwyd ymlaen £ 3.970m**

**Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22 £36.155m**

- **Nodi'r gofynion cyllido posibl yn y dyfodol ar gyfer 2022/23 ymlaen fel y nodir yn Atodiad 1, Tabl 3 a pharagraff 5.3 o'r adroddiad.**
- **Yn sgil y pwysau ar y gyllideb gyfalaf, fod Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn cyflwyno sylwadau drwy lythyr at Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn awgrymu bod cynlluniau atal/lliniaru llifogydd awdurdodau lleol yn cael eu hariannu 100% gan grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, a**
- **Bod Aelod Portffolio Cyllid yn cyflwyno sylwadau drwy lythyr at Weinidog Cyllid Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at y pwysau ar y gyllideb gyfalaf yn Ynys Môn oherwydd y diffyg cynnydd yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol dros nifer o flynyddoedd a'r cyfyngiadau y mae hyn yn debygol o'u gosod ar weithgareddau cyfalaf a buddsoddiadau'r Cyngor yn y dyfodol.**

## 4. CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, mai £142.146m oedd y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21 h.y. y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar gyfer 2021/22 mae nifer o newidiadau hysbys yr ymrwymwyd iddynt yn debygol o effeithio ar y gyllideb. Manylir ar y rhain yn adran 3 o'r adroddiad ysgrifenedig ac maent yn cynnwys amrywiadau yn niferoedd disgyblion, taliadau i Gais Twf Gogledd Cymru, costau Pensiwn hanesyddol a buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth. Y newid mwyaf arwyddocaol yw cost gynyddol y Contract Casglu Sbwriel a Glanhau Strydoedd newydd gyda Biffa, sydd £909k yn uwch na'r gyllideb gyfredol. Gan ystyried yr holl addasiadau a thybiaethau fel y'u nodir yn Adran 3, cyfanswm y gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2021/22 yw £147.076m, cynnydd o £4.930m ar gyllideb derfynol 2020/21. Bydd setliad dros dro uwch gan Lywodraeth Cymru yn talu £3.821m o'r costau uwch gan adael diffyg cyllid o tua £1m i'w ariannu drwy Dreth y Cyngor.

Byddai'r gyllideb ddigyfnewid o £147.076m yn caniatáu i'r Cyngor gynnal ei wasanaethau presennol; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol newydd a gofynion newydd am wasanaethau na chaniatawyd ar eu cyfer yn y gyllideb. Mae'r pwysau a'r gofynion hyn - rhai ohonynt mewn gwasanaethau sydd wedi dioddef gostyngiadau yn ystod y cyfnod o lymder - wedi dod yn fwy amlwg wrth i'r Cyngor ymateb i bandemig Covid. Manylir ar y meysydd blaenoriaeth y nodwyd bod angen cyllid ychwanegol arnynt yn adran 10.6 o'r adroddiad ac maent yn cynnwys adfer y rhaglen hyfforddeion broffesiynol; cryfhau capasiti Gwarchod y Cyhoedd; Cynhwysiant Addysg; Cymorth TG i ysgolion; rheoli twristiaeth a newid yn yr hinsawdd. Ar ôl ystyried y gyllideb ddigyfnewid ac yng ngoleuni'r ffaith bod angen cynnydd o 2.55% yn bennaf i ariannu'r cynnydd yng nghost y contract casglu sbwriel newydd, ystyriwyd cynnydd ychwanegol o 1.2% yn y Dreth Gyngor fel ffordd o ariannu'r pwysau a'r gofynion ychwanegol ar y gyllideb. Byddai cynnydd ychwanegol o 1.2% yn uwch na'r lefel sy'n ofynnol i ariannu'r gyllideb ddigyfnewid (tabl 4 ym mharagraff 9.2) yn cynhyrchu £494k ychwanegol o gyllid. Cynigir felly y dylid cynyddu lefel y Dreth Gyngor o 3.75% sy'n cyfateb i gynnydd wythnosol o 94c ar gyfer eiddo Band D.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sylw at y risgiau canlynol i'r gyllideb –

DRAFT

- Ansicrwydd o ran y dyfarniadau cyflog posibl ar gyfer y ddau brif grŵp o weithwyr llywodraeth leol – athrawon a staff NJC. Er bod cyhoeddiad wedi'i wneud ym mis Tachwedd, 2020 y byddai cyflogau holl weithwyr y sector cyhoeddus (ac eithrio'r GIG) sy'n ennill dros £24,000 yn cael ei rewi, ac y byddai'r dyfarniad tâl i'r rhai sy'n ennill llai na £24,000 o leiaf yn £250, nid Llywodraeth y DU sy'n pennu'r dyfarniad cyflog ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol, ond y corff sy'n cynrychioli cyflogwyr llywodraeth leol. Yn ogystal â hyn, mae pennu'r dyfarniad cyflog athrawon blynyddol wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Caniatawyd cynnydd o 1% yn y gyllideb ddigyfnewid ar gyfer chwyddiant cyflog ar gyfer cyflogau athrawon ac ar gyfer cyflogau staff NJC.
- Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y gyllideb ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n cyfateb i'r cynnydd arfaethedig o 3.75% yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, nid oes arian ar gael yn y gyllideb pe bai nifer yr hawlwyr yn cynyddu'n sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymorth ychwanegol eleni i dalu cost y cynnydd yn y galw ar y cynllun oherwydd effaith Covid 19 a deellir y bydd y cymorth hwn ar gael y flwyddyn nesaf os bydd ceisiadau o dan y cynllun yn cynyddu'n sylweddol.
- Nid oedd darpariaeth wedi'i gwneud yn y gyllideb ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â Covid. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi talu'r costau uwch a wynebir gan y Cyngor o ganlyniad i'r pandemig yn ogystal â darparu ad-daliad am golli incwm. Bydd y trefniant hwn yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Wrth nodi y bydd yn cyhoeddi'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir y bydd cyllid ychwanegol ar gael i'r Cyngor ond ni wyddom ar ba lefel y bydd y cyllid hwnnw. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu costau ychwanegol parhaus a ysgwyddir o ganlyniad i Covid ac y bydd yn gwneud iawn am unrhyw incwm a gollir gan y Cyngor yn sgil gorfod cau ei gyfleusterau o fis Ebrill ymlaen.

Wrth ddiolch i'r Gwasanaeth Cyllid am yr wybodaeth a'r adroddiad a luniwyd o fewn amserlen dynn ers cyhoeddi'r setliad Llywodraeth Leol dros dro ar 22 Rhagfyr 2020, roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r ffaith bod rôl allweddol Diogelu'r Cyhoedd yn y pandemig wedi'i chydnabod yn y gyllideb ddrafft yn ogystal â'r buddsoddiad mewn rhaglen hyfforddeion i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes llywodraeth leol. Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Carwyn Jones, darparodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)./Swyddog Adran 151 grynodeb o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o ran sut mae'r cynllun yn gweithio, ar gyfer pwy y mae'r cynllun a'r broses ymgeisio.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Yr addasiadau i'r Gyllideb sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddigyfnewid fel y nodir ym Mharagraffau 4 i 7 o'r adroddiad.**
- **Y gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2021/22 o £147.076m. Dylai hon fod yn sail i gyllideb refeniw 2021/22.**
- **Cynnydd arfaethedig o £3.75% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.**
- **Diwygiadau arfaethedig ychwanegol i'r gyllideb fel y nodir yn Nhabl 5 yr adroddiad.**
- **Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2021/22 o £147.531m**
- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio barn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22.**

DRAFT

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd –**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.**

## 6. ACHOS BUSNES LLAWN – ADEILAD YSGOL NEWYDD YN LLE YSGOL CORN HIR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sy'n cynnwys yr Achos Busnes Llawn ar gyfer adeilad ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir yn Llangefni i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

*Ar ôl datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, ymneilltuodd y Cynghorydd Richard Dew o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad arno.*

Cyflwynodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd Diwylliant ac Ieuenctid, yr adroddiad drwy ddweud bod yr Achos Busnes Llawn wedi cael ei baratoi i sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir o dan Raglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ariannu 50% o gostau'r cynnig gyda gweddill y costau i'w hariannu drwy adnoddau cyfalaf y Cyngor.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y pwyllgor o gefndir y cynnig gan ddweud bod holl elfennau'r Achos Busnes Llawn yn seiliedig ar yr opsiwn newydd a ffefrir gan y Cyngor ar ôl cynnal ymgynghoriad statudol rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth 2020 a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr, 2020 sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir a gadael Ysgol Bodffordd fel y mae. Lluniwyd yr achos Busnes yn unol â chanllawiau Achos Busnes Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yn seiliedig ar yr Achos Busnes – Model Pum Achos ac mae'n darparu gwybodaeth mewn perthynas â phob cam o ddatblygiad y cynnig mewn perthynas â'r achos strategol, yr achos economaidd, yr achos masnachol, yr achos rheoli a'r achos ariannol dros y cynnig.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Gwasanaeth Dysgu a staff y Gwasanaeth Trawsnewid am eu gwaith ar yr Achos Busnes Llawn.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer adeilad ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru**
- **Cymeradwyo bod derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo ar gyfer codi adeilad newydd yr ysgol yn lle Ysgol Corn Hir, yn amodol ar unrhyw broblemau sy'n codi wrth werthu'r safle.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Achos Busnes Llawn os oes angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd partïon).**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

## Y PWYLLGOR GWAITH

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Cynllunio - Amgylchedd Adeiledig a Naturiol (JIW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, G.O Jones, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Uwch Swyddog Trafnidiaeth (IW), Swyddog Cyfathrebu (GJ), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol). |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Gwaith. Cyfeiriodd at absenoldeb Mr Fôn Roberts, y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd profedigaeth deuluol ac estynnodd gydymdeimlad y Pwyllgor Gwaith â Mr Roberts a'i deulu.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol i'w cymeradwyo ganddo:

30 Tachwedd, 2020
14 Rhagfyr, 2020
17 Rhagfyr, 2020 (cyfarfod arbennig)

**Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn gywir –**

- **30 Tachwedd, 2020**
- **14 Rhagfyr, 2020**
- **17 Rhagfyr, 2020 (cyfarfod arbennig)**

## 4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2020 i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Panel Rhiant Corfforaethol, amlinellodd y Prif Weithredwr fusnes cyfarfod y Panel ar 8 Rhagfyr gan nodi, ar ôl bwlch oherwydd Covid 19, fod y Panel Rhiant Corfforaethol wedi ailddechrau cyfarfod ym mis Rhagfyr, 2020 pan gafodd diweddariad ar waith a wnaed gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y pandemig, gan gynnwys y camau a gymerwyd i gwrdd â'r rhwymedigaethau statudol a'r dulliau creadigol a fabwysiadwyd i gadw mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod mewn cyfnod o gyfyngiadau cymdeithasol. Hysbyswyd y Panel am lwyddiant parhaus yr ymgyrch i recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth, a gefnogwyd gan lansiad y Cynnig Craidd ym mis Ionawr, 2019, sef cymhelliant marchnata i ddenu gofalwyr maeth newydd. Diweddarwyd y Panel hefyd ar gyraeddiadau addysgol y plant a'r bobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod. Yn ystod y pandemig penderfynodd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Arweinydd / Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol achub ar y cyfle i gomisiynu adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o lywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol y Panel, yn benodol p'un a oedd ganddo drefniadau priodol i gefnogi a hwyluso'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol. Er bod yr adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi sicrwydd bod y Panel yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan, nododd hefyd welliannau y gellid eu gwneud a bydd y rhain yn cael sylw mewn cynllun gweithredu y cytunir arno gan y Panel.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2020.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng mis Chwefror, 2021 a mis Medi, 2021 a nodwyd y newidiadau canlynol -

- Eitemau newydd –
  - Eitem 21 - Datganiad ar y Polisi Trwyddedu - ar gyfer cyfarfod 22 Mawrth, 2021
  - Eitem 22 - Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020 - 2030: Y Stad Mân-ddaliadau - ar gyfer cyfarfod 22 Mawrth, 2021.
  - Eitemau 33-36 - Adroddiadau Chwarterol Perfformiad a Monitro Cyllideb 2021/22 - ar gyfer cyfarfod Medi, 2021.



DRAFT

- Eitemau a ailraglennwyd

  - Eitem 3 - Rhent Tai CRT a Thaliadau Gwasanaeth Tai 2021/22 - a ddygwyd ymlaen i gyfarfod 15 Chwefror, 2021
  - Eitem 19 - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20 - eitem wedi'i hailraglennu o gyfarfod 25 Ionawr, 2021 i gyfarfod 22 Mawrth, 2021
  - Eitem 20 - Cwrs Golff Llangefni - eitem wedi'i hailraglennu o gyfarfod 15 Chwefror, 2021 i gyfarfod 22 Mawrth, 2021.

Yn ogystal, ers cyhoeddi'r rhaglen mae'r Gwasanaeth Tai wedi gofyn am i eitem 2 ar y Rhaglen Waith - Cynllun Comisiynu Grant Cymorth Tai - gael ei hailraglennu o gyfarfod 15 Chwefror, 2021 i gyfarfod 22 Mawrth, 2021.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi, 2020 gyda'r newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas ag ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a nododd ei fod yn adroddiad sy'n delio ag ailstrwythuro arfaethedig yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r newidiadau i'r cyfansoddiad o ganlyniad.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020 i adlewyrchu ailstrwythuro mewnol yr uwch dîm rheoli gan y cyn Brif Weithredwr yn 2019. Yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr, penodwyd y Dirprwy Brif Weithredwr yn Brif Weithredwr a phenodwyd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn Ddirprwy Brif Weithredwr. Ers mis Tachwedd, 2019 mae rôl y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol wedi bod yn wag er gwaethaf dwy ymgyrch hysbysebu allanol. Yn dilyn yr ymgyrch hysbysebu aflwyddiannus gyntaf mae dyletswyddau swydd y Cyfarwyddwr wedi bod yn cael eu cyflawni gan ddau ymgeisydd mewnol, gydag un wedi ei benodi'n Bennaeth Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r llall wedi ei benodi i arwain ar faterion cynllunio lle. Gwnaed y penodiadau hyn yn y lle cyntaf tan Ebrill, 2020 ond oherwydd y pandemig a'r angen i sicrhau parhad busnes fe'u hestynnwyd hyd at fis Rhagfyr, 2020.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod argyfwng y pandemig wedi dangos bod yn rhaid i'r Cyngor fod â swyddogion a chanddynt gymwysterau addas mewn meysydd penodol ar gyfer y dyfodol; mae'r ymateb i'r coronafeirws hefyd wedi dangos yn glir bwysigrwydd cymwyseddau priodol ar gyfer y lefel hon o swyddi. Yn ogystal, mae cyfnod y pandemig hefyd wedi profi pwysigrwydd hanfodol gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i adeiladu gwytnwch cymunedol i ddelio â gwahanol heriau, sef heriau y mae swyddogion angen amser digonol a rhesymol i fynd i'r afael â hwy. Mae angen capasiti digonol a theg / cytbwys ar draws yr holl wasanaethau i sicrhau gwytnwch y Cyngor yn y dyfodol o fewn yr haen uwch o reolaeth ac arweinyddiaeth. Er bod trefniadau dros dro wedi gweithio'n dda nid ydynt yn effeithiol yn y tymor hir. Mae'n rhaid gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r swydd Cyfarwyddwr a'r swyddi dros dro a grëwyd o ganlyniad i'r methiant i recriwtio i'r rôl honno.

Gyda hyn mewn golwg, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Penodi ym mis Rhagfyr, 2020 yn gofyn am ei argymhelliad o ran y ffordd orau ymlaen i lenwi'r gwagle yn uwch dîm rheoli'r



DRAFT

Cyngor. Yn yr adroddiad hwnnw mynegodd y Prif Weithredwr ei barn broffesiynol mai'r opsiwn gorau fyddai dileu swydd y Cyfarwyddwr a phenodi un Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a thrwy hynny ddileu'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r uwch Dîm; yn ymarferol, y Dirprwy Brif Weithredwr fyddai'n arwain ar yr agwedd hon ar y swydd yn yr Uwch Dîm. Felly, byddai angen rhoi ystyriaeth i gefnogi rhai o ddyletswyddau'r Dirprwy ac - o dan ei oruchwyliaeth - eu cysylltu â'r elfen Cynllunio Lle o rôl y Cyfarwyddwr. Yr opsiwn symlaf fyddai creu swydd ychwanegol ar Raddfa 9/10 i ddarparu capasiti a gwytnwch i'r strwythur ac i gefnogi'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r swydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd sydd newydd ei chreu. Cymeradwyodd y Pwyllgor Penodi'r dull hwn o symud ymlaen a nodir ei benderfyniadau ffurfiol i'r perwyl yn yr adroddiad.

Mae adrannau 5 a 6 yr adroddiad yn nodi'r goblygiadau o safbwynt cyfansoddiadol a'r newidiadau i'w gwneud i adlewyrchu strwythur diwygiedig arfaethedig yr UDA / Penaethiaid Gwasanaeth (ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad, ond yn amodol ar gynnwys y swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion sydd wedi'i gadael allan yn anfwriadol o'r strwythur fel y'i dangosir).

Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a chadarnhaodd ei fod yn cefnogi'r dull o symud ymlaen fel yr argymhellir gan y Pwyllgor Penodi.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn –**

- **Nodi argymhellion y Pwyllgor Penodi a chadarnhau:**
  - **Dileu swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (swydd sydd hefyd wedi ei hadnabod fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ystod y broses recriwtio ddiweddar) o Gyfansoddiad y Cyngor;**
  - **Creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac i'r rôl hon gael ei hysbysebu'n allanol;**
  - **Sefydlu a hysbysebu'n allanol swydd newydd, sef Swyddog Strategaeth Gorfforaethol.**
  - **Cadarnhau cynnwys Atodiad 2, sy'n adlewyrchu'r diwygiadau uchod i strwythur y Cyngor yng Nghyfansoddiad y Cyngor;**
  - **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Prif Weithredwr (yn dilyn ymgynghoriad), yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad, ac o ganlyniad i'r newid strwythurol uchod, yn rhannu'r meysydd cyfrifoldeb perthnasol ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth, fel bo'r angen.**
  - **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro, yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad, yn diwygio'r Cyfansoddiad (gan gynnwys y cynllun dirprwyo i swyddogion) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r newid strwythurol uchod a dosbarthiad y cyfrifoldebau ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y gwnaed gan y Prif Weithredwr dan y chweched pwynt bwled uchod.**
  - **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol eraill i'r cyfansoddiad i adlewyrchu'r argymhellion uchod.**



DRAFT

## 7. STRATEGAETH DAI DROS DRO 2020/21

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn ymgorffori Strategaeth Dai Dros Dro 2021.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Mummery, yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau, ac fe eglurodd mai'r bwriad wrth gyflwyno'r Strategaeth Dai Dros Dro yw rhoi dogfen strategol ar waith sy'n cydnabod y newidiadau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn, trwy flaenoriaethu'r hyn sydd angen digwydd y flwyddyn nesaf a darparu gwybodaeth am sut mae'r Gwasanaethau Tai a'i bartneriaid yn ymateb, ac yn parhau i ymateb, i'r pandemig coronafeirws. Mae'n bont i ddatblygu'r Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a Strategaeth Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru erbyn 2022. Defnyddiwyd blaenoriaethau'r Strategaeth gyfredol ar gyfer y Strategaeth Dros Dro a fydd yn llywio blaenoriaethau'r Gwasanaeth am y cyfnod 2022 -2027 ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gan gyfeirio at y Cynllun Cyfathrebu a'r ymgynghoriad, dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Strategaeth Dros Dro wedi'i rhoi ar wefan y Cyngor i bwrpas ymgynghori â phrif bartneriaid y Gwasanaeth. Rhedodd y cyfnod ymgynghori am 3 wythnos rhwng 27 Tachwedd, 2020 a 18 Rhagfyr, 2020. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad (y manylir arno yn Atodiad 1) yn dangos cefnogaeth i'r Strategaeth Dai Dros Dro ar gyfer 2021 a bydd yn sail ar gyfer datblygu'r Strategaeth 5 mlynedd am y cyfnod o 2022 i 2027 a'r bwriad yw cyhoeddi drafft cychwynnol erbyn Ebrill, 2021 gyda'r drafft terfynol ar gael ar-lein rhwng Mehefin ac Awst, 2021 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr amserlen ymgysylltu / ymgynghori arfaethedig yn gweld y drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Medi, 2021 ac wedi hynny i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo ym mis Hydref, 2021.

Wrth ddarparu rhagolwg o amcanion y Gwasanaeth Tai cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at 93 o unedau tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn 2021/22 gan y Cymdeithasau Tai sy'n bartneriaid i'r Gwasanaeth o gymharu â 23 uned yn 2019/20 a 49 uned yn 2020/21. Nododd bod gwaith i godi 38 o unedau tai Cyngor wedi cychwyn ar safleoedd yn 2020/21 a disgwylir i waith ar 40 uned arall gychwyn erbyn 2021/22. Yn ogystal, rhagwelir y bydd hyd at 75 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd yn 2020/21 ac o leiaf 50 yn 2021/22. Ymgymerwyd â gweithgaredd sylweddol hefyd o dan y Strategaeth Dai flaenorol, sef o 2014 mewn gwirionedd, lle darparwyd 53 o unedau tai newydd rhwng 2015 a 2020 ynghyd â phrynu 65 uned ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, cwblhawyd Hafan Cefni, sef cyfadeilad gofal ychwanegol sy'n cynnwys 63 fflat ac fe ailfodelwyd Llawr y Dref yn Llangefni i ddarparu ar gyfer ffordd fwy modern o fyw.

Wrth gloi ei gyflwyniad ar y Strategaeth, tynnodd yr Aelod Portffolio sylw at yr agwedd gadarnhaol ynddi o ran y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yr oedd yn ei phortreadu; mynegodd ei ddiolchgarwch i staff y Gwasanaeth Tai am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn ystod y 10 mis diwethaf wrth wynebu'r heriau a oedd wedi codi yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig mewn perthynas â digartrefedd ac wrth addasu nodau ac amcanion i fynd i'r afael â'r materion sy'n dod i'r amlwg.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod gan y Gwasanaeth Tai gyfrifoldeb statudol i asesu'r angen am dai ac i arwain ar weithio mewn partneriaeth i sicrhau tai o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion ei ddinasyddion nawr ac yn y dyfodol, a bod y Strategaeth yn dangos sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y cyfnod interim a thu hwnt.

Siaradodd aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith i ddiolch i'r Gwasanaeth Tai am ei ymateb i'r pandemig a hefyd am fod yn wasanaeth blaengar o ran ei weledigaeth ar gyfer stoc dai'r

DRAFT

Cyngor a'i waith o ran cynnal y stoc, buddsoddi ynddi ac ychwanegu ati, yn arbennig felly mewn ardaloedd mwy gwledig lle'r oedd hynny'n bosib, gan gydnabod bod argaeledd tai cymdeithasol mewn cymunedau gwledig yn bwysig i'w cynaliadwyedd tymor hir. Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn gwerthfawrogi gwaith y Gwasanaeth gydag eiddo gwag - a all fod yn ddolur llygad mewn cymunedau - wrth ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cadarnhaol a thrwy hynny wella cymunedau a helpu i gwrdd ag anghenion tai.

Ategodd y Cadeirydd y diolchiadau hynny gan ychwanegu bod y chwe thema a fydd yn llywio blaenoriaethau'r Strategaeth 5 mlynedd tymor hwy hefyd yn bwydo i mewn i Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Er y dylai'r rheolaeth o stoc dai'r Cyngor fod yn destun balchder i'r Gwasanaeth Tai mae hefyd yn adlewyrchiad o weithio mewn partneriaeth, gyda'r Gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â chyrff tai cymdeithasol a chymunedau'r Ynys i gyflawni ei ymrwymiadau tai.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Strategaeth Dai Dros dro 2021.**
- **Y dull o gyfathrebu wrth ddatblygu Strategaeth Dai 2022-27 a chynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a chymeradwyaeth derfynol**

**8. CYNLLUN BIOAMRYWIAETH**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys y Cynllun Bioamrywiaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Richard Dew, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a nododd mai hwn yw Cynllun Bioamrywiaeth cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn a'i fod wedi'i baratoi yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn unol â'r gofynion yn Adran 6 mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau a gwreiddio materion bioamrywiaeth yn ei benderfyniadau, ei gynlluniau a'i bolisïau o ddydd i ddydd. Mae'r Cynllun hefyd wedi ei baratoi i alinio ag amcanion Cynllun y Cyngor, yn benodol Amcan 3 (Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol). Mae'n dilyn canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ystyried amcanion y Cynllun Adfer Natur ar gyfer Cymru sy'n nodi gweithredoedd y gellir eu cyflawni yn y tymor byr ac sy'n gosod trywydd i gyflawni ymrwymiadau tymor hwy y tu hwnt i 2020. Mae amcanion y Cynllun Bioamrywiaeth wedi eu hysgrifennu i fod yn realistig, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy o fewn yr amserlenni ac adroddir ar ei allbynnau i'r Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn.

Amlygodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro, er bod y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi arwain ar ddatblygu'r Cynllun, disgwylir y bydd holl wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at wireddu ei amcanion. Hefyd, disgwylir ymgeisio am gyllid allanol er mwyn cyflawni rhai o'r prosiectau unigol yn y Cynllun sy'n ystyriaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cyfeiriodd y Rheolwr Cynllunio (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol) at y Cynllun Gweithredu fel elfen arbennig o bwysig o'r Cynllun ehangach gan nodi bod angen i'r Cyngor cyfan weithredu'n gorfforaethol er mwyn cyflawni'r camau a amlinellir ynddo.

Croesawodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith y Cynllun gan gydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth ac integreiddio bioamrywiaeth trwy holl waith y Cyngor. Roedd gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas bryderon ynghylch dirywiad coed ynn oherwydd y clefyd



DRAFT

gwywiad yr onnen a goblygiadau hynny i goed ynn ar yr Ynys ynghyd â’r posibilrwydd y gallai gael effeithiau ecolegol ehangach.

Wrth gydnabod bod hon yn broblem genedlaethol sylweddol, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod Cydlynydd y Cyngor ar gyfer y clefyd Gwywiad yr Onnen yn edrych ar y mater o safbwynt yr Ynys a bod panel sy'n cynnwys yr Aelodau Portffolio perthnasol a Swyddogion hefyd wedi'i sefydlu i'r un pwrpas. Mae gweithio gyda pherchnogion tir a chynghorau cymuned yr un mor bwysig hefyd, a hynny er mwyn nodi'r ardaloedd hynny lle mae coed heintiedig, ac i ddatblygu cynlluniau ailblannu lle collwyd coed.

Gofynnodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc am eglurhad ar yr ochr ariannol a phwysleisiodd yr angen i gadw llygad ar gynnydd.

Eglurodd y Rheolwr Cynllunio (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol) fod Llywodraeth Cymru yn rhedeg cyfres o gynlluniau o dan Bartneriaethau Natur Lleol yng Nghymru; mae'r rhain yn cynnwys ystod o sefydliadau gan gynnwys yr awdurdod lleol ac mae'r Partneriaethau'n derbyn cyllid ar gyfer prosiectau lleol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae oddeutu £80k ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf i brosiectau o'r fath a bydd cais yn cael ei gyflwyno cyn bo hir - mae elfen o'r cyllid hwn ar gyfer gwneud stad y Cyngor yn wyrddach ac mae rhai prosiectau eisoes wedi cychwyn gan ddefnyddio cyllid y llynedd at y diben hwn gyda thua £30k ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf.

O ran monitro, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses fonitro.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Is-Gadeirydd, wrth fynegi ei gefnogaeth i'r Cynllun, ei fod yn credu bod angen cryfhau'r polisïau diogelu'r amgylchedd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC); cyfeiriodd at enghraifft yn ei ardal etholiadol ei hun lle gellid colli rhan o safle bywyd gwyllt lleol dynodedig os caniateir cynnig i ddatblygu tai fforddiadwy o dan bolisi safle eithriad yn y CDLlC sy'n caniatáu datblygu y tu allan i ffiniau diffiniedig a oedd, yn ei farn ef, yn gwrthdaro â chyfrifoldebau a dyheadau’r Awdurdod dan y Cynllun Bioamrywiaeth. Ar ôl edrych yn sydyn trwy Gynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau eraill, roedd wedi darganfod bod Adran 5 o'r CDLl a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys darpariaeth polisi mewn perthynas â safleoedd eithriad ar gyfer tai fforddiadwy yn y cefn gwlad sy'n nodi na fydd cynigion datblygu ond yn cael eu caniatau lle dangosir “*nad yw'r datblygiad arfaethedig o fewn Lletem Werdd, Ardal Tirwedd Arbennig nac o fewn, yn agos at neu wrth ymyl Safle Cadwraeth Natur a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn genedlaethol neu'n lleol*. ” Gofynnodd am ystyried ymgorffori darpariaeth debyg yn y CDLlC ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd pan fydd y Cynllun yn cael ei adolygu, a hynny er mwyn ymestyn diogelwch i safleoedd o'r fath yn Ynys Môn a Gwynedd.

Nododd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Ieuan Williams a chadarnhaodd y byddai'n mynd â'r mater yn ôl i Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a mabwysiadu’r Cynllun Bioamrywiaeth yn ffurfiol.**

## 9. CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSUS

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn perthynas â'r Cynllun Brys ar gyfer Bysus. Roedd yr adroddiad yn nodi'r



DRAFT

cyd-destun ehangach, y cefndir a'r Cynllun Brys ar gyfer Bysus (CBB) a'r rhesymau drosto, ac yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i i ymuno â chynllun CBB2.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd R G Parry, OBE, FRAgS, yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, a rhoddodd wybodaeth gefndir bod Llywodraeth Cymru (LlC) ac awdurdodau lleol wedi bod yn darparu cymorth ariannol i'r sector gwasanaethau bws i helpu i ddelio â llai o refeniw a chostau uwch oherwydd effaith Covid-19. Cyn y pandemig roedd LlC wedi ymgynghori ar ystod o newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae gwasanaethau bws yn cael eu darparu yng Nghymru ac wedi nodi ei bod am weld y sector cyhoeddus yn cael mwy o ddylanwad dros rwydweithiau gwasanaeth, tocynnau ac integreiddio â gwasanaethau rheilffyrdd; mae LlC hefyd yn bwriadu cysylltu goroesiad tymor byr y gweithredwyr â diwygio'r sector ar gyfer y tymor hir. Yn y tymor byr, felly, darperir cyllid i gadw gweithredwyr i fynd ac mae nifer o amodau gyda'r cyllid hwnnw. Nod y rhain yw cymell gweithredwyr i ymgysylltu â'r newidiadau y bwriedir eu gwneud ac sy'n unol â'r uchelgeisiau tymor hwy ar gyfer diwygio'r sector. Rhyddhaodd LlC £29m o Gronfa Caledi a oedd yn gweithredu o Ebrill, 2020 am dri mis, ac ar ôl hynny cyflwynwyd y Cynllun Brys ar gyfer Bysus ym mis Gorffennaf er mwyn parhau i ddarparu cymorth (CBB1) gyda disgwyl y byddai gweithredwyr yn cyfrannu at ail-lunio gwasanaethau bws yng Nghymru. Cyflwynwyd CBB 1.5 ym mis Awst, 2020 a weinyddir gan Awdurdodau arweiniol (Sir y Fflint yn achos Gogledd Cymru) a darparodd hyn £10m o gyllid i gefnogi ailagor ysgolion a gweithgaredd economaidd. Yna estynnwyd CBB 1.5 hyd at ddiwedd mis Mawrth, 2021 yn dilyn cyhoeddi pecyn cymorth pellach ym mis Medi, 2020, a gofynnwyd i weithredwyr gytuno i ystod o delerau ac amodau ar gyfer manteisio ar y cyllid.

Mae LlC, yn gweithio ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, bellach yn cynnig gwneud cytundeb CBB2 tymor hwy gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol i ddiogelu gwasanaethau. Bydd y cytundeb yn rhedeg yn y lle cyntaf am ddim mwy na 2 flynedd o'r dyddiad y cychwynnodd CBB 1.5 h.y. hyd at Orffennaf 2022 oni bai bod amodau'r farchnad yn gwella digon i weithredwr beidio â bod angen cymorth CBB mwyach, boed ar gyfer gwasanaethau masnachol neu wasanaethau dan gontract. Bydd LlC yn gyd-lofnodwr cytundeb CBB2 gyda gweithredwyr bysus ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru. Mae Awdurdodau Lleol yn cadw cyfrifoldebau cyfreithiol am wasanaethau bws ac felly'n parhau i fod â rôl ganolog o ran penderfynu pa wasanaethau lleol sy'n derbyn y cymorth hwn. Mae angen iddynt ymrwymo i egwyddor y cytundeb a'r berthynas â'u hawdurdod arweiniol wrth sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn cwrdd â'u blaenoriaethau ac yn cael ei ddarparu ar eu rhan. Bydd hyn yn darparu'r sylfaen gyfreithiol i LlC wneud taliad i'r gweithredwyr. Mae nodweddion allweddol CBB2 wedi'u crynhoi yn yr adroddiad ac mae'r Cytundeb arfaethedig llawn wedi'i nodi yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Amlygodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bwysigrwydd cefnogi'r sector er budd gweithwyr allweddol yr Awdurdod ac ar gyfer yr adferiad ôl-Covid a dywedodd, er nad yw'r cyllid yn cynnwys trafnidiaeth addysg yn benodol, mae'n hanfodol o ran helpu gweithredwyr bysus i oroesi'r argyfwng presennol a pharhau i fod yn ddiddyled, gan sicrhau eu bod ar gael ar gyfer trafnidiaeth addysg yn y dyfodol. Dywedodd na fydd ymrwymo i CBB2 yn clymu'r Awdurdod i unrhyw fodel rheoli yn y dyfodol gan y bydd hynny'n destun trafodaethau pellach; nid yw ychwaith yn golygu cyllid ychwanegol i gael mwy o fysus - arian ydyw yn hytrach i helpu gweithredwyr ddal i fynd yn ystod yr argyfwng presennol a chyda hyn mewn golwg gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro'r trefniadau ar gyfer monitro.

Croesawyd y cynllun gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd a Phrosiectau Mawr, a thynnodd sylw at y ffaith bod gwasanaethau bws yn achubiaeth i ardaloedd gwledig ac felly mae'n hanfodol cefnogi'r gwasanaethau hynny. Cyfeiriodd at Gynghrair Seiriol sy'n rhedeg gwasanaeth bws mini llwyddiannus ac sy'n awyddus i ddarparu gwasanaeth cymunedol ar gyfer pentrefi mwy gwledig yr ardal;

gofynnodd am eglurder ynghylch sut y gellid cynorthwyo gwasanaeth o'r fath yn y dyfodol ac yn benodol ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddarparu trafnidiaeth gymunedol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod cytundeb CBB2 wedi'i anelu'n benodol at gefnogi gweithredwyr cyfredol trwy gyfnod y pandemig. Fodd bynnag, fel rhan o ddiwygiadau arfaethedig pellach i'r modd y rheolir gwasanaethau bws yng Nghymru y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, mae'r Awdurdod eisoes wedi mynegi diddordeb mewn treialu cynllun Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw yng Nghaergybi ac yn ardal Seiriol. Er bod y cynllun prawf yng Nghaergybi yn fwy tebygol o fynd yn ei flaen gyntaf oherwydd y ffordd y mae contractau masnachol gyda gweithredwyr yn gweithio, mae'r Awdurdod yn parhau i gadw mewn cof yr opsiynau yn ward Seiriol yn enwedig mewn ardaloedd y tu hwnt i Fiwmares.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno i egwyddorion Cytundeb CBB2 (Atodiad 2) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) ar gyfer y sector bysiau ac i sefydlu perthynas â’r awdurdod arweiniol rhanbarthol a’r llofnodwr, sy’n sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn diwallu blaenoriaethau’r awdurdodau ac yn cael ei ddarparu ar ei ran.**

- **Galw am adroddiad arall ar gynigion diwygio bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bws yng Nghymru yn y dyfodol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Chwefror 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2021;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy'. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

<table>
<tr><th colspan="2">E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?</th><th>Beth oedd eu sylwadau?</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)</td><td rowspan="7">Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe’i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Adnoddau Dynol (AD)</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Eiddo</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Technoleg Gwybodaeth (TG)</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Caffael</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Sgriwtini</td><td>Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Aelodau Lleol</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
</table>

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2021. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2021** | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>9 Mawrth 2021 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2021 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 3 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor<br>9 Mawrth 2021 |
| 6 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 7 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 8 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Ffioedd a Thaliadau 2021/22** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| 10 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor<br>1 Mawrth 2021 |
| 11 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Cyllid (13 Tachwedd, 2020)<br><br>Panel Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor<br>9 Mawrth 2021 |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Cyllideb Gyfalaf 2021/22** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | Cyngor 9 Mawrth 2021 |
| 13 | **Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Dysgu | Rhys H Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>1 Mawrth 2021 | |
| | | | | | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 15 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 8 Mawrth 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 17 | **Cwrs Golff Llangefni** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>8 Mawrth 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 18 | **Datganiad Polisi Trwyddedu** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 19 | **Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020-2030 – Ystad Mân-ddaliadau** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Cynllun Comisiynu Grant Cymorth Tai** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 21 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 22 | **Adroddiad Cynnydd o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>8 Mawrth 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| | **Ebrill 2021** | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mai 2021** | | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2021 | |
| **Mehefin 2021** | | | | | | | |
| 25 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020/21**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2021 | |
| | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>….. | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021



| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| 29 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| 30 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2021 | |
| | | | | **Gorffennaf 2021** | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Medi 2021** | | | | | | |
| 32 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2021 | |
| 33 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>. | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2021 | |
| 34 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2021 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2021

Diweddarwyd 4 Chwefror 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 36 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2021 | |
| | **Hydref 2021** | | | | | | |
| 37 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2021 | |

Tudalen 32

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **15 Chwefror 2021** |
| **Pwnc / testun:** | **Rhent Tai CRT a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2021/22** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr** | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **Awdur yr adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Rheolwr Tîm Incwm Rhent a Chynhwysiant Ariannol**<br>**01248 752265**<br>**dkghp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | |

**A –Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer 2021/22 fel y nodir isod: -

**A1** cymeradwyo'r cynnydd rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasglu dros 51 wythnos.

**A2** cymeradwyo cynnydd o 0.45% + £2.00 yr wythnos yn yr holl renti sydd islaw'r bandiau rhent targed cyfredol er mwy parhau i weithio tuag at gwrdd â'r rhent targed.

**A3** cymeradwyo cynnydd o 0.45% yn yr holl renti sydd ar darged neu'n uwch

**A4** cymeradwyo cynnydd o 13c yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.

**A5** cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 3.3 o'r adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.

**A6** cymeradwyo pennu Ffioedd Rhent Canolraddol ar 80% o gostau rhent y farchnad agored neu hyd at y Lwfans Tai Lleol.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sydd wedi'i glustnodi'n unig ar gyfer

trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdod Lleol.

**1.2** Ar 30 Tachwedd 2020 derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod wedi cytuno ar y Polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021/22. Mae'n cynghori y dylai pob Awdurdod Lleol ddefnyddio fformiwla mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) + 1% gyda gwerth CPI ym mis Medi 2020 yn 0.5%.

**1.3** Yn 2020, argymhellodd yr Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy y dylid gweithredu polisi rhent 5 mlynedd gan y byddai'n darparu sicrwydd a sefydlogrwydd i denantiaid a landlordiaid. Eleni, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn pwysleisio'r angen i ystyried gwerth am arian ochr yn ochr â fforddiadwyedd ac I beidio â rhoi baich ariannol gormodol ar denantiaid yn ystod yr amseroedd heriol hyn.

**1.4** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n rhaid i'r Cyngor ddilyn y dull o gynyddu lefelau rhent trwy ddefnyddio 'Bandiau Targed Rhent'. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu 'atal' y bandiau targed hyn ar yr amod nad yw'r cynnydd yn yr incwm rhent blynyddol a gesglir yn fwy na CPI + 1%.

**2.0 Cynnydd rhent ar gyfer tenantiaid Ynys Môn**

**2.1** Gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu atal y Bandiau Rhent Targed ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, ac er tegwch, penderfynwyd ar gynnydd rhent i'r holl denantiaid hyd at y trothwy blynyddol o 1.5%. Os byddwn yn gwneud hyn ac yn casglu dros 51 wythnos er mwyn cymryd i ystyriaeth yr wythnos ddi-rent dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu oddeutu £278k o incwm rhent blynyddol ychwanegol.

**2.3** Gan ddefnyddio'r ffigyrau ar gyfer casglu dros 51 wythnos, bydd y cynnydd rhent arfaethedig ar gyfer 2021/22 yn gynnydd wythnosol o £1.42 ar gyfartaledd. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent wythnosol cyfartalog o £95.09 i £96.51.

**2.4** Yn ogystal, mae'r lefel hon o gynnydd rhent yn cael ei defnyddio fel y model ar gyfer y Cynllun Busnes Tai. Os na ddilynir y dull hwn, efallai y bydd angen dulliau amgen i ariannu'r cynllun busnes.

**2.5** Er mwyn gweithredu'r cynnydd rhent blynyddol yn deg ac yn gyfartal ymhlith tenantiaid ac i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r trothwy uchaf ar gyfer y cynnydd blynyddol, cyfrifir y cynnydd trwy ddefnyddio'r 'Rhent Cyfredol +

0.45%’ a'i weithredu ar gyfer pob tenant. Codir £2.00 yr wythnos yn ychwanegol ar denantiaid y mae eu rhent yn sylweddol is na'r band rhent targed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Gwneir hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod y rhent a godwn yn cyfateb i renti darparwyr tai cymdeithasol eraill.

1) Ar gyfer y 1910 o eiddo y mae eu rhenti'n is na'r bandiau rhent targed cyfredol, bydd cynnydd o 0.45% + £ 2.00 yr wythnos yn y rhent cyfredol. Mae ystod y cynnydd wythnosol rhwng £2.33 - £2.52 yr wythnos.

2) Ar gyfer y 1942 o anheddu sy'n weddill ac y mae eu rhent ar y targed neu'n uwch, bydd cynnydd o 0.45%. Bydd ystod y cynnydd wythnosol rhwng £0.32c a £0.59c.

**2.6** Os byddwn yn gweithredu’r dulliau cynyddu rhent uchod, bydd 2175 eiddo ar y rhent targed neu’n uwch a 1677 yn is na’r rhent targed.

**2.7** Bydd y polisi rhent yn cynhyrchu incwm rhent blynyddol o oddeutu £18.95m ar gyfer y CRT yn ystod 2021/22.

**2.8** Wrth ailosod tai gwag, cynigir y bydd y rhent yn cael ei bennu yn unol â'r polisi cynnydd rhent y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 a fydd yn dileu cymhlethdod y codiadau trosiannol.

**3.0 Taliadau Gwasanaeth**

**3.1** Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2021/22 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2019/20 ac fe'u rhennir yn gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod mwyafrif y costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol.

**3.2**. Mae'r holl gostau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Bydd oddeutu £242k o incwm yn cael ei gynhyrchu ganddynt.

**3.3** Y taliadau wythnosol arfaethedig ar gyfer 2021/2022, yn seiliedig ar 51 wythnos, yw:

Cynnal lifftiau - £0.17 - £1.17
Glanhau ardaloedd cymunedol - £2.76 – £6.89
Larymau Tân ac Offer Tân - £2.03
Systemau Mynediad - £0.66
Taliadau Carthffosiaeth - £2.39
Gwresogi a Goleuo ardaloedd cymunedol - £1.72

Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.22
Paentio ardaloedd cymunedol - £0.08 - £1.06
Cynnal a Chadw Tir (Eiddo Domestig) - £5.75 (tâl 6 mis)
Cynnal a Chadw Tir (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)
Costau rheoli ar 15% o bob tâl gwasanaeth,

**3.4** Ar hyn o bryd mae 61 o lesddeiliaid y codir arnynt am wasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm blynyddol ychwanegol o oddeutu £12k**.**

**4.0 Garejis**

**4.1** Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw ganllawiau ar sut i gynyddu rhenti garejis. Felly mae'r Cyngor yn cynnig cynnydd o 13c yr wythnos sy'n cyfateb i gynnydd o 1.5% (CPI + 1%). Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £8.42 yr wythnos i £8.55 a bydd yn cynhyrchu incwm o £235k ar ôl tynnu garejis gwag o'r ffigyrau. Ar 11 Ionawr 2021 roedd 220 o garejis gwag**.**

**5 Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol**

**5.1** Ar hyn o bryd ni fydd 2729 o denantiaid y Cyngor (72%) yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd arfaethedig mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth, gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu rannol neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. Bydd yn rhaid i denantiaid nad ydynt yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r taliadau gwasanaeth, oni bai eu bod wedyn yn gymwys i gael budd-dal oherwydd y cynnydd.

**5.2** Oherwydd effaith mesurau Diwygio Budd-daliadau Lles y Llywodraeth a hefyd effaith y pandemig, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg felly wedi cynyddu i £295k (1.5%) ar gyfer 2021/22 gan ein bod yn disgwyl y bydd dyledion yn cynyddu pan fydd yn rhaid i denantiaid gwrdd â chyfran uwch o'r rhent eu hunain. Mae hwn yn gynnydd sylweddol oherwydd effaith bosib Credyd Cynhwysol.

**5.3** Mae gan y Gwasanaethau Tai dri Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i denantiaid ynghylch materion cynhwysiant ariannol gyda ffocws cryf ar gynyddu gallu ariannol a sgiliau cyllidebu fel y gall tenantiaid reoli eu cyllid a chael mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd. Datblygwyd cysylltiadau hefyd i wella arferion gwaith ar lefel strategol a gweithredol gyda phartneriaid mewnol ac allanol fel Canolfan J E O'Toole, CAB, Cymunedau'n Gyntaf Môn, Gofal a Thrwsio, Age Cymru a chwmnïau cyfleustodau.

## 6 Pennu Rhenti Canolraddol 2021/22

**6.1** Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf mae'r Awdurdod yn edrych i ddatblygu tai Cyngor newydd gyda'r bwriad o godi Rhenti Canolraddol.

**6.2** Mae'r mathau hyn o dai yn rhai fforddiadwy lle mae'r rhenti yn uwch na rhenti cymdeithasol eraill ond yn is na rhenti preifat a chânt eu gosod o dan Gofrestr Gosod Tai Teg ac nid y Gofrestr Dai Gyffredin.

**6.3** Dywed Canllawiau Rhent Canolraddol Llywodraeth Cymru (2011) y dylai rhent canolraddol fod yn seiliedig ar y Lwfans Tai Lleol neu 80% o renti marchnad agored. Mae gwybodaeth a gasglwyd gan Tai Teg ym mis Hydref 2020 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r Cymdeithasau Tai yng Ngogledd Cymru yn pennu eu rhent canolraddol yn seiliedig ar 80% o gostau rhent marchnad agored**:**

| | Adra | Clwyd Alyn | Cartrefi Conwy | Grŵp Cynefin | New Homes | Tai Gogledd Cymru / North Wales Housing |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhent ar LTLl neu 80/90% o rent marchnad agored | 80% | 80%/90% | 80% | LTLl neu 80% | Yn gyffredinol 90% o rent y farchnad agored, ond mewn rhai achosion lle mae'n anodd gosod eiddo efallai y byddwn yn cymharu â'r gyfradd LTLl | Mae hyn yn dibynnu ar rwymedigaethau A106, pe caniateir 80% o rent marchnad agored yn gyffredinol byddem yn cynyddu i hyn |

**Gwybodaeth i gynorthwyo gyda phennu rhent canolraddol:**

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer Ynys Môn, i gynorthwyo gyda phennu'r rhent canolraddol:

| | Rhent | Lwfans Tai | Rhenti | 80% o'r | 90% o'r |
|---|---|---|---|---|---|

| | Cymdeithasol (2020/21) | Lleol (Ionawr 2021) | Cyfartalog y Sector Preifat (1 Ion-31 Rhag 2019) | Rhent Sector Preifat | Rhent Sector Preifat |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 ystafell wely | £79.78 y.w. (fflat) £88.07 y.w. (tŷ/byngalo) | £80.55 y.w. | £398.15 mis calendr (£91.63 y.w.) | £73.30 y.w. | £82.47 y.w. |
| 2 ystafell wely | £87.43 y.w. (fflat) £94.98 y.w. (tŷ/byngalo) | £103.56 y.w. | £518.14 mis calendr (£119.25 y.w.) | £95.40 y.w. | £107.33 y.w. |
| 3 ystafell wely | £101.20 y.w. | £120.82 y.w. | £590.25 mis calendr (£135.85 y.w.) | £108.68 y.w. | £122.27 y.w. |
| 4 ystafell wely | £107.86 y.w. | £149.59 y.w. | £799.93 mis calendr (£184.10 y.w.) | £147.28 y.w. | £165.69 y.w. |

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

1) Fe wnaethom ystyried yr opsiwn o gynnydd rhent o 1.5% i bob tenant ond ystyriwyd bod hyn yn annheg i'r tenantiaid hynny sydd ar rent targed ar hyn o bryd. Felly, penderfynwyd ar gynnydd o 0.45% i bob tenant ynghyd â £2.00 yr wythnos yn ychwanegol yn achos tenantiaid y mae eu rhenti islaw'r bandiau rhent targed. Byddai'r fformiwla hon yn cyfateb i gyfanswm y cynnydd blynyddol a ganiateir.

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gan Bolisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer Cynllun Busnes y CRT.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

1) Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, roi'r Polisi Rhent ar waith. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu colli incwm i'r Awdurdod ac yn anochel yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio Cynllun Busnes y

| |
|---|
| CRT ac o bosib yn ein hagor i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r polisi'n cael ei fabwysiadu.<br><br>2) Gallai gwrthod y polisi hwn hefyd beryglu incwm blynyddol o'r Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr, sef £ 2.66m a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, a hynny oherwydd y gellid ystyried nad ydym yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i gynhyrchu incwm. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)** | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau a Chamau Lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau gynyddu rhenti bob blwyddyn ac mae'n darparu fformiwla briodol i'r pwrpas hwn. Mae'n ofynnol i gynghorau gynnal llety o safon uchel i'w tenantiaid, ac felly maent yn dibynnu ar y refeniw ychwanegol hwn i wrthsefyll effeithiau chwyddiant. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Cyfeirier os gwelwch yn dda at y Strategaeth Wrthdlodi gan yr Adran Dai yn ystod 2018. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Wrth wireddu'r codiadau rhent yn y ffordd hyn mae'n parhau ar y proses cydgyfeirio rhenti am y gwahanol fathau o gartrefi sydd y decach i'n tenantiaid. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Appendices:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Llythyr Hysbysu 2021/2022 |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeiryddion Landlordiaid Cymdeithasol
Cofrestredig
Cyfarwyddwyr Cyllid Awdurdodau Tai Lleol
Cyfarwyddwyr Tai Awdurdodau Tai Lleol

30 Tachwedd 2020

Annwyl Gydweithwyr

**Rhenti a Chostau Gwasanaethau Tai Cymdeithasol o 2021 i 2022**

Diben y llythyr hwn yw dweud wrth landlordiaid cymdeithasol am yr uchafswm rhent y gallant ei godi ar denantiaid o 6 Ebrill 2021 ymlaen. Cydnabyddaf y pwysau mawr ar landlordiaid cymdeithasol eleni, a'r ffaith ei bod yn flwyddyn ddigynsail i bob un ohonom.

Ail flwyddyn y cytundeb rhent 5 mlynedd a gafodd ei gyflwyno'r llynedd yw hon, ac mae'n bwysicach fyth bod anghenion landlordiaid a buddion tenantiaid yn cael eu hystyried. Mae fforddiadwyedd yn fater yr wyf yn ei ystyried yn ddifrifol iawn, ac rwy'n awyddus i beidio â rhoi baich ariannol gormodol ar denantiaid yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rwy hefyd yn ymwybodol o'r anawsterau posibl y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i ôl-ddyledion cynyddol a lefelau uwch ac uwch o ddigartrefedd.

Mae'r dull gweithredu y cytunwyd arno yn parhau i fod fel a ganlyn:

1. Ymgodiad rhent blynyddol o hyd at CPI+1%, gan ddefnyddio lefel y CPI o'r mis Medi blaenorol bob blwyddyn. Roedd mis Medi 2020 yn 0.5%.

2. CPI+1% fydd yr ymgodiad uchaf a ganiateir mewn unrhyw flwyddyn, ond ni ddylid ystyried CPI+1% yn ymgodiad y dylai landlordiaid cymdeithasol ei weithredu'n awtomatig. Wrth benderfynu ar rent, dylai landlordiaid ystyried fforddiadwyedd rhenti i denantiaid fel y nodir isod.

3. Gall lefel y rhent ar gyfer tenantiaid unigol gael ei lleihau, ei rhewi, neu gall godi hyd at £2 yr wythnos yn uwch na CPI+1%, ar yr amod nad yw cyfanswm incwm rhent y mae'r landlord cymdeithasol yn ei gasglu yn cynyddu o fwy na CPI+1%. Nod y ddarpariaeth hon yw galluogi landlordiaid cymdeithasol i ailstrwythuro rhenti sy'n daladwy pan fo'n briodol i wneud hynny.

4. Os bydd CPI y tu hwnt i'r ystod 0% i 3%, y Gweinidog â chyfrifoldeb am dai fydd yn pennu'r newid sy'n briodol i lefelau rhent ar gyfer y flwyddyn honno yn unig.

5. Dylai landlordiaid cymdeithasol ddweud wrth Lywodraeth Cymru os oes ganddynt bryderon am effaith y gallai'r polisi rhent ei chael ar eu cynllun busnes neu eu hyfywdra ariannol, neu ar eu gallu i gyflawni eu rhwymedigaethau i denantiaid a benthycwyr.

6. Fel rhan hanfodol o'r polisi rhent pum mlynedd, bydd disgwyl i landlordiaid cymdeithasol osod polisi rhent a chost gwasanaethau sy'n sicrhau bod tai cymdeithasol yn parhau'n fforddiadwy i denantiaid cyfredol a thenantiaid yn y dyfodol. Fel rhan o'u penderfyniad blynyddol ar lefel ymgodiad / lleihad y rhent dylent wneud asesiad o effeithiolrwydd costau ar draws sylfaen y costau gweithredu, gwerth am arian a fforddiadwyedd i denantiaid.

**<u>COVID-19 a Newidiadau i Fandiau Rhent Targed</u>**

Yn ystod y pandemig, mae adnoddau'r llywodraeth wedi'u hailflaenoriaethu, sy'n golygu bod y casgliad o setiau data rhent eleni wedi'i atal ar ddechrau argyfwng COVID-19. Felly nid oes data cadarn cyfredol ar gael i gynhyrchu Bandiau Rhent Targed ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rwy felly wedi ystyried rôl y Bandiau Rhent Targed, gan gyfarwyddo fy swyddogion i drafod y mater gyda'ch cyrff cynrychioliadol a rhanddeiliaid unigol. Mae'r trafodaethau hynny wedi datgelu er i'r Bandiau Rhent Targed chwarae rhan werthfawr pan gawsant eu cyflwyno, mae'r sefyllfa gyfredol yn wahanol iawn ac i'r rhan fwyaf o landlordiaid nid ydynt yn chwarae rhan bwysig mewn perthynas â gosod rhenti lleol. Yn sgil hynny, rwy wedi gwneud penderfyniad pragmatig i'w *hatal ar gyfer eleni*. Byddaf yn adolygu effaith y penderfyniad hwn pan fyddwn yn gosod rhenti'r flwyddyn nesaf, ac os bydd materion annisgwyl ac anfwriadol yn codi o'r penderfyniad hwn, byddaf yn ailystyried defnyddio Bandiau Rhent Targed wrth symud ymlaen.

**<u>Monitro Cydymffurfiaeth</u>**

Mae gofyn i bob landlord cymdeithasol gynnal asesiad blynyddol o fforddiadwyedd ac effeithlonrwydd cost, gan ddangos tystiolaeth o hwnnw – a hefyd ddangos bod eu cartrefi a'u gwasanaethau'n cynrychioli gwerth am arian, fel rhan o'u penderfyniad o'r ymgodiad rhent sydd i'w weithredu bob blwyddyn.

Dylai landlord cymdeithasol gofio mai <u>uchafswm</u> y gellir ei godi yw'r setliad polisi rhent, nid rhent targed.

I helpu i roi'r sicrwydd angenrheidiol, bydd gofyn i bob landlord cymdeithasol gwblhau ffurflen fonitro hunanardystio a gaiff ei defnyddio i fonitro cydymffurfiaeth â Pholisi Rhent Llywodraeth Cymru. Bydd y ffurflen ar gael cyn hir.

**<u>Y Cytundeb Rhentu Ehangach</u>**

Rwy'n falch o nodi bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar nifer o'r mentrau newydd y cytunwyd arnynt gyda'r sector y llynedd, ond bu oedi anochel oherwydd y pandemig. O ganlyniad, os bydd dyddiadau neu ddulliau'r mentrau wedi newid, fe nodir hynny isod:

- Cryfhau y dulliau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau eich bod yn lleihau'r achosion o droi tenantiaid allan a chyflawni cytundeb newydd i beidio â throi tenantiaid allan os yw'n arwain at fod yn ddigartref.

- Cynnal arolwg boddhad tenantiaid safonol a darparu'r data sy'n deillio ohono i'w gyhoeddi ar wefan ganolog i helpu tenantiaid i graffu ar berfformiad landlordiaid, a'u cymharu. Dylai canlyniadau'r arolwg cyntaf fod ar gael i'w cyhoeddi erbyn Ebrill 2021 a dylid cynnal yr arolygon bob dwy flynedd o leiaf wedi hynny. **Diweddariad** – bydd y cyhoeddiad cyntaf ym mis Ebrill 2021 o hyd, ond bydd yn seiliedig ar ddata boddhad sydd eisoes gennym er mwyn gwneud cymhariaeth ystyrlon. Bydd swyddogion yn trafod cyfres ddiwygiedig o gwestiynau craidd ar gyfer canlyniadau arolwg a gyhoeddir ym mis Ebrill 2022 yn ystod y misoedd nesaf.

- Adeiladu ar yr ymrwymiad sy'n bodoli eisoes i ddarparu cartrefi o safon uchel, gyda'r nod y bydd safonau ar gyfer **gofod** Mannau a Chartrefi Prydferth 2021 yn gymwys ar gyfer daliadaethau[1] ar safleoedd sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru, a hynny gam wrth gam o 2021 ymlaen.

- Gweithio tuag at ddyhead y bydd pob cartref mewn adeilad newydd, ni waeth beth fo'r ddeiliadaeth, yn bodloni safonau effeithlonrwydd ynni heb fod yn llai na EPC A ar safleoedd sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru o Ebrill 2021 ymlaen.

Er gwaethaf y pandemig, rhaid i'n gwaith ar y cyd barhau i sicrhau bod gan denantiaid presennol, a darpar denantiaid yn y dyfodol, gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n effeithlon o ran ynni. A rhaid inni hefyd wneud popeth o fewn ein gallu i liniaru effeithiau tlodi yn y cyfnod ansicr hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch gosod rhent a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae croeso ichi gysylltu â'm swyddogion drwy'r cyfeiriadau e-bost isod.

Awdurdodau Tai Lleol – HousingQualityStandards@llyw.cymru

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – HousingRegulation@llyw.cymru

Yn gywir



Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

[1] *Nodwch fod y safon DQR 2020 llawn yn cynnwys gofynion eraill yn ogystal â gofynion o ran gofod a bydd angen bodloni'r rhain yn llawn o ran cartrefi a ariennir gan gynlluniau megis Grant Tai Cymdeithasol.*

**cc** Arweinwyr Cynghorau Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Tai (Awdurdodau Lleol Trosglwyddo)
Prif Weithredwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cyfarwyddwyr Cyllid, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cysylltiadau Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai Awdurdodau lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tai Cymunedol Cymru
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid
Tai Pawb
UK Finance
Cydlynydd Abbeyfield Cymru
Yr Athro Mark Stephens, Prifysgol Heriot Watt